Cyngor Sir CEREDIGION

Adroddiad I'r:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Dyddiad y cyfarfod:	**15 Hydref 2024**
Lleoliad:	**Siambr y Cyngor / O bell trwy Fideo-gynadledda**
Teitl:	**Canlyniadau Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cyflwyno canlyniadau Proffil Perfformiad yr Awdurdod Lleol**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod Cabinet	**Arweinydd y Cyngor - Polisi a Pherfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd**

Cefndir
Mae Data Cymru wedi datblygu teclyn data perfformiad newydd i gefnogi awdurdodau lleol i ddeall eu **perfformiad cyffredinol** yn well ac i **gefnogi Asesiadau Perfformiad Panel** a gychwynnodd ym mis Medi 2024.

Enw'r teclyn newydd yw Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol (PPALl) ac mae'n cynnwys detholiad o 34 o fesurau perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cyd-destunol sy'n darparu cyflwyniad o'r cefndir. Mae'r Proffil ar gael fel dangosfwrdd *Power BI* yn unig, nid oes fersiwn copi papur.

Un o brif ddefnyddiau PPALl yw cefnogi'r cyfoedion sy'n ymgymryd ag Asesiadau Perfformiad Panel i ddeall sut mae'r Awdurdod Lleol yn perfformio ar hyn o bryd. Defnyddiwyd hwn gan y Panel mewn Asesiad Perfformiad Panel diweddar yng Ngheredigion rhwng 30 Medi a 3 Hydref.

Bydd y PPALL yn parhau i gael ei ddatblygu yn y dyfodol, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r gweithrediad defnydd yn datblygu a'i gwella ymhellach. Ar hyn o bryd mae peth cyfyngiadau o ran cyhoeddi data'r teclyn, er enghraifft ni chaniateir i ni gyhoeddi canlyniadau awdurdodau lleol eraill heb eu caniatâd, fodd bynnag, y gobaith yw y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu gwaredu'n fuan.

Y Sefyllfa bresennol
Roedd y diweddariad mwyaf diweddar o'r PPALl ar 10 Medi ac roedd y canfyddiadau cyffredinol yn dangos taw:

- Ceredigion sydd â'r ail nifer uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf gyda 13 allan o 34 mesur.

- Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel canol uchaf ac uchaf gyda 25 allan o 34.
- Mae 73.5% o fesurau Ceredigion yn y chwartel canol uchaf ac uchaf. Mae 67.6% gan yr awdurdod agosaf nesaf. (Mae cyfanswm y mesurau ar gyfer pob awdurdod lleol yn amrywio ychydig oherwydd mân wahaniaethau yn y gwasanaethau a ddarperir, er enghraifft, ar gyfer yr awdurdodau hynny sydd wedi cadw eu stoc tai).
- Mae perfformiad Ceredigion hefyd wedi gwella o ran y 21 mesur (neu 65.6%) sydd yn y chwartel canol uchaf ac uchaf yn y canlyniadau blaenorol.
- Ar y cyfan, mae gan Geredigion 13 mesur sydd yn y chwartel uchaf, 12 yn y chwartel canol uchaf, 2 yn y chwartel canol isaf a 7 yn y chwartel isaf.

Mae crynodeb o siartiau i roi darlun o'r canlyniadau hyn ynghyd â rhestr o'r mesurau unigol ym mhob chwartel ynghlwm yn Atodiad 1.

Casgliad
Er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu drwy fod yn un o'r awdurdodau a ariennir isaf, ynghyd â heriau sy'n deillio o boblogaeth wledig wasgaredig, mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol bod y Cyngor nid yn unig yn perfformio ei swyddogaethau'n effeithiol ond ei fod hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Argymhellion:
Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn canlyniadau Proffil Perfformiad yr Awdurdod Lleol

Rheswm dros y penderfyniad:
Er mwyn rhannu gwybodaeth am berfformiad cyffredinol yr awdurdod a gasglwyd gan Data Cymru

Atodiadau:
Atodiad 1 – Proffil Perfformiad awdurdodau lleol
Canlyniadau yn 10/9/2024

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Alun Williams (Swyddog Arweinydd Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r y Cyhoedd)

Swyddog Adrodd:
Alun Williams (Swyddog Arweinydd Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r y Cyhoedd)

Dyddiad:
12 Medi 2024